**Vaughan Gething AC/AM**
**Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Health and Social Services**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA/P/VG/2847/19

Dr Dai Lloyd AC
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Caerdydd
CF99 1NA

9 Awst 2019

Annwyl Dai,

Diolch ichi am eich llythyr 25 Mehefin 2019 ynghylch Adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ar gynnydd tuag at ddileu Hepatitis C yng Nghymru.

Mae'r ddogfen amgaeedig yn darparu fy ymateb ffurfiol i bob un o argymhellion yr Adroddiad. Byddwch yn nodi fy mod yn fodlon derbyn, neu dderbyn mewn egwyddor yr holl argymhellion sydd wedi'u gwneud.

Byddwch cystal â diolch i'r Pwyllgor ac i bawb arall am eu rhan wrth gefnogi'ch ymchwiliad a chynhyrchu'ch adroddiad terfynol.

Yn gywir

Vaughan Gething

**Vaughan Gething AC/AM**
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Health and Social Services

Enc

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Vaughan.Gething@llyw.cymru
Correspondence.Vaughan.Gething@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

**Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon tuag at ddileu Hepatitis C yng Nghymru**

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i agenda Sefydliad Iechyd y Byd ar gyfer dileu hepatitis B a C, sy'n cynnwys targedau i leihau 90% ar amlder hepatitis feirysol 90% ac i leihau 65% ar farwolaeth oherwydd hepatitis B a C erbyn 2030.

Amcangyfrifir bod 12,000 o drigolion Cymru nad ydynt yn gwybod bod ganddynt hepatitis C neu nad ydynt yn ymgysylltu â gwasanaethau ar gyfer triniaeth (mae manylion terfynol modelu ar gyfer Cymru'n cael eu pennu ac fe allai'r ffigur hwn newid). Mewn ymateb i'r her hon, anfonwyd Cylchlythyr Iechyd Cymru (WHC/2017/048) i GIG Cymru ym mis Hydref 2017, yn nodi'r fframwaith camau gweithredu y mae eu hangen ar lefel leol i gefnogi'r gwaith o ddileu hepatitis C.

Pwysleisiodd WHC/2017/048 bwysigrwydd datblygu gwasanaethau allgymorth effeithiol a chyson i ymgysylltu ag unigolion nad ydynt mewn cysylltiad â gwasanaethau traddodiadol ar hyn o bryd. Pwysleisiodd hefyd bwysigrwydd darparu gwell dulliau profi a thriniaeth a hynny mewn lleoliadau ac amgylchedd y mae'r unigolion hyn yn gyfarwydd ac yn gyffyrddus â hwy. Fel hyn, byddant yn fwy tebygol

o fynychu a derbyn triniaeth.

I gefnogi'r camau gweithredu lleol y mae eu hangen, mae ystod o gamau cenedlaethol wrthi'n cael eu symud ymlaen i gefnogi dileu hepatitis C gan gynnwys:

- Profion optio allan BBV a gyflwynwyd mewn carchardai yng Nghymru yn 2016.

- Mae ymarfer cenedlaethol i ailgysylltu â chleifion â hepatitis C wedi dechrau sy'n cynnwys ailgysylltu â chleifion a gafodd ddiagnosis naill ai ar adeg pan nad oedd triniaeth ar gael neu pan nad oedd yn cael ei oddef yn dda. Hyd yn hyn yn 2019, mae dros 600 o lythyron yn gwahodd cleifion i gael eu hailbrofi wedi cael eu cyhoeddi ac fe gaiff llythyron pellach eu cyhoeddi wrth i ansawdd data cleifion gael ei sicrhau.

- Mae manyleb genedlaethol ar gyfer profi mewn fferyllfeydd cymunedol wedi cael ei ddatblygu ac o Ebrill 2019 ymlaen mae'n cael ei arbrofi ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ac ym Mwrdd Iechyd Cwm Taf cyn cael ei chyflwyno ledled Cymru.

- Cytunwyd ar ddangosydd perfformiad allweddol (KPI) ar gyfer Byrddau Cynllunio Ardal, sy'n canolbwyntio ar gynnig prawf BBV yn flynyddol i'r rhai sy'n cael mynediad at wasanaethau camddefnyddio sylweddau, ac fe'i cyflwynwyd ers Ebrill 2019. Mae Grŵp Gorchwyl a Gorffen Llywodraeth Cymru wedi'i sefydlu i gefnogi goruchwylio ei gyflwyno a'r cynnydd arno.

- Mae GIG Cymru wedi negodi â'r diwydiant fferyllol i gytuno ar gytundeb ariannu newydd ar gyfer triniaethau hepatitis C o Ebrill 2019 ymlaen.

Mae'r camau gweithredu uchod oll yn gydrannau hanfodol strategaeth ddileu.

Hoffwn ddiolch i aelodau'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon am eu hadroddiad ar gynnydd tuag at lwyddo i ddileu hepatitis C yng Nghymru. Rwyf wedi nodi fy ymateb i argymhellion unigol yr Adroddiad isod.

**Amlinellir isod yr ymatebion manwl i'r argymhellion a wneir yn yr adroddiad:**

**Argymhelliad 1**. Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn creu strategaeth ddileu genedlaethol, gynhwysfawr ar gyfer Hepatitis C. Dylai'r strategaeth honno gynnwys targedau uchelgeisiol clir, a dylai hefyd gynllunio ar gyfer y gweithlu. Dylid darparu cyllid cynaliadwy hyd nes y caiff yr haint ei ddileu. Rhaid gwneud hyn yn ddiymdroi, o gofio y bydd y cynllun presennol yn dod i ben eleni, ac mai dim ond tan 2021 y mae cyllid wedi'i gadarnhau ar gyfer swyddi penodol.

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Mae polisi Llywodraeth Cymru wedi symud i ffwrdd o strategaethau penodol iawn ar gyfer clefydau am fod eu ffocws cyfyngedig, ynghyd â baich gweinyddol strategaeth wedi'i ffurfioli'n creu cyfyngiadau. Roedd yr ymchwiliad yn canolbwyntio'n benodol ar hepatitis C ac er bod hyn yn bwysig, hyd yn oed o fewn hepatitis, mae camau gweithredu eraill, megis yr angen i ddileu hepatitis B (un o dargedau eraill Sefydliad Iechyd y Byd). Mae ystod eang hefyd o glefydau/materion polisi diogelu iechyd sydd heb strategaethau penodol ac eto mae gwaith sylweddol yn cael ei wneud yn y meysydd hyn heb faich gweinyddol strategaeth wedi'i ffurfioli.

Mae gweithgarwch allweddol mewn perthynas â hepatitis C (a B) gynt yn rhan o Gynllun gweithredu BBV, a oedd ar waith tan 2015, bellach yn rhan o'r Cynllun Cyflawni ehangach ar gyfer Clefyd yr Afu, y disgwylir iddo redeg tan fis Mawrth 2021. Ni waeth a yw'n cael ei gynnwys mewn strategaethau ehangach, gwyddys beth y mae ei angen i ddileu hepatitis C yn llwyddiannus: mwy o brofion a thriniaeth yn y gymuned.

Mae'r broses i gynyddu profion a thriniaeth yn y gymuned yn mynd rhagddi ac rydym yn rhagweld gwelliannau sylweddol trwy gyflwyno'r KPI ar gyfer Byrddau Cynllunio Ardal mewn perthynas â phrofi ar gyfer BBVs mewn gwasanaethau camddefnyddio sylweddau. Yn ogystal, bydd Llywodraeth Cymru'n cyflwyno targedau ffurfiol ar gyfer profion a thriniaeth ar gyfer hepatitis C yn y byrddau iechyd fel rhan o Fframwaith Cyflawni'r GIG ar gyfer 2020/21.

Bydd Llywodraeth Cymru'n cynhyrchu cylchlythyrau Iechyd Cymru ar gyfer GIG Cymru yn amlinellu cynnydd ac yn tanlinellu camau penodol y mae eu hangen i ddileu hepatitis C erbyn 2030 fan bellaf. Caiff perfformiad yn erbyn y gofynion hyn (gan gynnwys Targedau yn Fframwaith Cyflawni'r GIG) ei archwilio a'i fonitro trwy drefniadau rheoli perfformiad presennol y GIG.

Er y cytunir y bydd angen swyddi cenedlaethol allweddol y tu hwnt i Fawrth 2021 os oes gobaith inni lwyddo i ddileu hepatitis C, caiff unrhyw benderfyniad ar gyfer ariannu y tu hwnt i'r cyfnod y mae gennym setliad ar ei gyfer tuag adeg cylch priodol cynllunio'r gyllideb.

**Goblygiadau ariannol:** Dim. Caiff y gwaith o gyflawni'r camau gweithredu lleol i ddileu hepatitis B ac C fel bygythiad i iechyd y cyhoedd ei gwmpasu o fewn cyllidebau rhaglenni presennol a dyraniadau'r GIG.

**Argymhelliad 2**. Rhaid i’r strategaeth gynnwys ymgyrch codi ymwybyddiaeth wedi’i thargedu er mwyn cyrraedd cymunedau sy’n wynebu risg, ynghyd â darparu ar gyfer rhoi addysg a hyfforddiant i weithwyr iechyd proffesiynol.

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Mae codi ymwybyddiaeth wedi'i thargedu eisoes yn digwydd yng Nghymru trwy amrywiaeth o sianeli. Byddai ar Lywodraeth Cymru angen tystiolaeth glir bod ymgyrch cenedlaethol yn effeithiol wrth gyrraedd y grwpiau anodd eu cyrraedd hyn.

Rhan sylfaenol o gynnydd yw buddsoddiad y bwrdd iechyd mewn gwasanaethau allgymorth effeithiol a chyson i ymgysylltu ag unigolion nad ydynt mewn cysylltiad â gwasanaethau traddodiadol ar hyn o bryd. Mae cleifion hepatitis C yn anodd eu cyrraedd yn aml a dyna paham y mae angen adnodd pwrpasol mewn byrddau iechyd i helpu i ddod o hyd i achosion wedi'u targedu yn y gymuned.

Mae addysg a hyfforddiant i weithwyr iechyd proffesiynol eisoes ar gael - caiff hyn ei adolygu a'i ailgyfleu fel rhan o becyn ehangach mewn perthynas â chlefyd yr afu.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim. Caiff y gwaith o gyflawni'r camau gweithredu lleol i ddileu hepatitis B ac C fel bygythiad i iechyd y cyhoedd ei gwmpasu o fewn cyllidebau rhaglenni presennol a dyraniadau'r GIG.

**Argymhelliad 3.** Os am gyrraedd targed dileu 2030 yng Nghymru, rhaid i Lywodraeth Cymru ysgrifennu at Gyfarwyddwyr Cyllid a Phrif Weithredwyr y Byrddau Iechyd Lleol i bwysleisio bod yn rhaid ystyried y targedau triniaeth cenedlaethol ar gyfer Hepatitis C fel y targedau mwyaf sylfaenol, gyda’r nod o ragori arnynt lle bynnag y bo modd.

**Ymateb: Derbyn**

Bydd Llywodraeth Cymru'n ysgrifennu at Gyfarwyddwyr a Phrif Weithredwyr y Byrddau iechyd i gadarnhau cyflwyniad ffurfiol targedau profi a thriniaeth cenedlaethol ar gyfer hepatitis C. Fe'i gwneir yn glir bod yn rhaid ystyried y targedau triniaeth cenedlaethol ar gyfer Hepatitis C fel y targedau mwyaf sylfaenol, gyda’r nod o ragori arnynt lle bynnag y bo modd.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim. Caiff y gwaith o gyflawni'r camau gweithredu lleol i ddileu hepatitis B ac C fel bygythiad i iechyd y cyhoedd ei gwmpasu o fewn cyllidebau rhaglenni presennol a dyraniadau'r GIG.

**Argymhelliad 4.** Rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gwneud buddsoddiad ychwanegol er mwyn gwella'r profion am Hepatitis C mewn carchardai yng Nghymru.

**Ymateb: Derbyn mewn Egwyddor**

Er bod Llywodraeth Cymru yn ymwybodol bod angen gwella cyfraddau profi ar gyfer Hepatitis C mewn carchardai, mae angen gwella arnynt yn achos ystod o glefydau. Mae ymchwiliad yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i'r holl wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru ac fe gaiff canlyniad hyn ei gymryd i ystyriaeth o safbwynt gwella profion mewn carchardai. Mae nifer y bobl sy'n cael eu sgrinio'n rheolaidd am BBVs mewn carchardai'n cael ei fonitro'n rheolaidd - ac mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn yn ddiweddar am sicrwydd ynghylch cynnig sgrinio BBV i'r holl rai sy'n cael mynediad at wasanaethau camddefnyddio sylweddau mewn carchardai. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi dyrannu cyllid eleni i wella gwasanaethau iechyd mewn carchardai.

**Goblygiadau ariannol:** Ddim yn hysbys ar hyn o bryd. Bydd Llywodraeth Cymru'n cymryd i ystyriaeth yr ymchwiliad ehangach i Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn yr ystad carchardai - ac i ba raddau y gellir talu costau i wella'r canlyniadau iechyd ymhlith carcharorion o gyllidebau rhaglenni presennol a dyraniadau'r GIG. Eir i'r afael â hyn mewn trafodaethau â byrddau iechyd.